

■
Hafan
Pori
Awduron A-Z
Chwiliad testun rhydd
Chwiliad testun rhydd

English




PDF Argraffu Cyfeirnod

Linell Amser English

Hafan Pori Awduron A-Z

Chwiliad testun rhydd

SIDDONS, SARAH (1755 - 1831), actores



Enw: Sarah Siddons
Dyddiad geni: 1755
Dyddiad marw: 1831
Priod: William Siddons
Rhiant: Sarah Kemble (née Ward)
Rhiant: Roger Kemble
Rhyw: Benyw
Galwedigaeth: actores
Maes gweithgaredd: Perfformio
Awdur: Cecil John Layton Price

Ganwyd 5 Gorffennaf 1755 yn nhafarn y 'Shoulder of Mutton' (heddiw, 'The Siddons'), Aberhonddu, i Roger Kemble a'i wraig Sarah Ward - bu ei rhieni'n actio yng nghwmni John Ward, yn Aberhonddu ac ar y goror. Ym mis Mai 1772 ymunodd actor o'r enw William Siddons (o Walsall) â'r cwmni, ac ar waethaf gwrthwynebiad ei rhieni - a'i droi yntau allan o'r cwmni am wneud apêl ar gân i'r gynulleidfa yn Aberhonddu - priodwyd hwy yn Coventry, 26 Tachwedd 1773. Y mae gyrfa fuddugoliaethus Mrs. Siddons yn hysbys ddigon, ac adroddir ei hanes yn y ffynonellau ar ddiwedd yr ysgrif hon; ond ar ôl blynyddoedd ei hieuencid ni bu fawr a wnelai hi â Chymru, ar wahân i aros o bryd i bryd ym Mrynbel, Dyffryn Clwyd, gyda'i chyfeilles **Mrs. Piozzi**. Bu farw 8 Mehefin 1831.

Chwaer iddi oedd **Julia Anne Hatton**, a brawd iddi oedd **Charles Kemble**.

Awdur

Cecil John Layton Price, (1915 - 1991)

Ffynonellau

Cofrestr eglwys Fair, Aberhonddu

Adam's Weekly Courant, 19 Mai 1772

Oxford Dictionary of National Biography

T. Campbell, *Life of Mrs. Siddons* (Llundain 1834)

Yvonne French, *Mrs. Siddons, Tragic Actress* (Llundain 1936)

Cecil Price, *The English Theatre in Wales in the Eighteenth and Early Nineteenth Centuries* (Caerdydd 1948)

Darllen Pellach

James Boaden, *Memoirs of Mrs. Siddons: interspered with anecdotes of authors and actors*(London 1827), Vol.I

James Boaden, *Memoirs of Mrs. Siddons: interspered with anecdotes of authors and actors*(London 1827), Vol.II

Catherine Galindo, *Mrs. Galindo's letter to Mrs. Siddons: being a circumstantial detail of Mrs. Siddons's life for the last seven years; with several of her letters*£London 1809)

Erthygl Wicipedia: Sarah Siddons

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 57410988

Wikidata: Q234746

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Price, C. J. L., (1953). SIDDONS, SARAH (1755 - 1831), actores. Y Bywgraffiadur Cymreig. Adferwyd 17 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-SIDD-SAR-1755>

Bywgraffiadur

Preifatrwydd a Chwci
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATION

